Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adran 3 Atodiad: Cymeradwyo Ymlaen Llaw

Llawlyfr
Rheoli
Datblygu

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55199, ISBN digidol 978-1-80853-396-9

Llawlyfr Rheoli Datblygu

## Adran 3 Atodiad

# Cymeradwyo Ymlaen Llaw

## Cynnwys


| Adran | | Is-adran |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | |
| 2 | Defnyddio tir dros dro at ddibenion gwersylla | Proses: Math o Ddatblygiad |
| | | Proses: Hysbysiad am y bwriad i ddefnyddio tir fel safle gwersylla dros dro |
| | | Proses: Gofynion dilysu |
| | | Proses: Pethau i'r ACLl eu hystyried |
| | | Penderfyniad |
| | | Penderfyniad: Os nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw |
| | | Penderfyniad: Os oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw |
| | | Amrywio ar ôl ei gyflwyno |
| 3 | Amaethyddiaeth a Datblygu Coedwigaeth | Proses: Math o Ddatblygiad |
| | | Proses: Gofynion dilysu |
| | | Proses: Ystyriaethau ar gyfer yr Awdurdod Cynllunio Lleol |
| | | Penderfyniad |
| | | Penderfyniad: Pan nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw |
| | | Penderfyniad: Pan fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw |
| | | Hysbysiad cwblhau |
| 4 | Datblygiad gan Weithredwyr Systemau Cod Telegyfathrebu | |

Proses: Math o Ddatblygiad

Proses: Gofynion dilysu

Proses: Ymgynghori

Proses: Ystyriaethau ar gyfer yr Awdurdod Cynllunio Lleol

Penderfyniad

Penderfyniad: Pan nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw

Penderfyniad: Pan fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw

Hysbysiad o Ddatblygiad Brys

5 Dymchwel Adeiladau

Proses: Math o Ddatblygiad

Proses: Gofynion dilysu

Proses: Ystyriaethau ar gyfer yr Awdurdod Cynllunio Lleol

Penderfyniad

Penderfyniad: Pan nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw

Penderfyniad: Pan fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw

6 Terfynau Amser ar gyfer Cychwyn

7 Hawl i Apelio

8 Digolledu

9 Ffioedd

10 Cymhwyso'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd at y Broses Cymeradwyo Ymlaen Llaw

Y profion sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd

Mesurau lliniaru

Defnyddio amodau

Beth os na ellir rhoi cymeradwyaeth?

Canllawiau pellach

11 Gorfodi

Atodlen 1

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae cymeradwyaeth ymlaen llaw yn broses ymgeisio syml a nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd) ("GPDO"). Mae'n caniatáu i rai datblygiadau fynd rhagddynt heb fod angen cais cynllunio llawn, ar yr amod bod y meini prawf a bennir yn y GPDO yn cael eu bodloni.

1.2 Cyn cychwyn gweithrediadau penodol, mae amodau'r dosbarth datblygu a ganiateir yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol i ganfod a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, neu benderfyniad ynghylch a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol, ar gyfer agweddau penodol ar y datblygiad. Mae'r broses ymgeisio hon yn ymdrin ag ystod gyfyngedig o faterion yn hytrach na'r ystyriaethau helaeth sy'n nodweddiadol o gais cynllunio llawn. Ar ôl cyflwyno cais, gellir ystyried y weithdrefn benderfynu yn broses dau gam. Yn gyntaf, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw a rhaid iddo roi gwybod i'r ceisydd am ei benderfyniad. Yn ail, os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, mae cam dau yn cynnwys ystyriaeth fanwl o'r wybodaeth a gyflwynwyd gan y ceisydd a naill ai caniatáu neu wrthod y gymeradwyaeth honno o fewn y cyfnod penodedig.

1.3 Mae'r atodiad hwn yn darparu cyngor gweithdrefnol ar gyfer y prosesau cymeradwyo ymlaen llaw sy'n cael eu defnyddio amlaf, a nodir yn Atodlen 2 i'r GPDO, yn benodol:

- Amaethyddiaeth (Rhan 6) a Datblygu Coedwigaeth (Rhan 7)
- Gweithredwyr Systemau Cod Telegyfathrebu (Rhan 24)
- Dymchwel Adeiladau (Rhan 31)

1.4 Mae'r atodiad hefyd yn nodi sut mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i ofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt) wrth ystyried cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw.

1.5 Mae'r canllawiau a ddarperir ar gychwyn, apelio, digolledu, ffioedd a gorfodi yr un mor berthnasol i'r rhannau a grybwyllwyd a'u gweithdrefnau cymeradwyo. Rhoddir sylw i'r rhain gyda'i gilydd yn yr adrannau perthnasol isod.

## 2.0 Defnyddio tir dros dro at ddibenion gwersylla

Proses: Math o ddatblygiad

2.1 Mae dosbarth BA o Ran 4 o Atodlen 2 i'r GDCG yn caniatáu defnyddio tir dros dro at ddibenion gwersylla hamdden. Ni chaniateir defnyddio tir yn y ffordd hon oni bai bod y perchennog tir neu ddatblygwr arall wedi gwneud cais i'r

Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) am benderfyniad ynghylch a fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw.

2.2 Mae nifer y diwrnodau ym mhob blwyddyn galendr y caniateir defnyddio tir o dan Ddosbarth BA yn amrywio yn ôl dynodiadau tirwedd statudol penodol. Os yw unrhyw ran o'r tir o fewn Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu safle Treftadaeth y Byd, rhoddir caniatâd i ddefnyddio'r tir am 28 diwrnod. Mewn ardaloedd eraill, rhoddir caniatâd i ddefnyddio'r tir am 60 diwrnod.

2.3 Nid yw defnyddio o dan ddosbarth BA yn cynnwys safleoedd carafanau, sy'n ddarostyngedig i hawliau datblygu a ganiateir ar wahân a nodir yn Rhan 5 o Atodlen 2 i Orchymyn 1995. Bydd defnyddio tir at ddibenion gwersylla mewn cysylltiad â gŵyl yn parhau i fod yn Nosbarth B ac nid yw'r newid hwn yn effeithio arno.

2.4 Ni chaniateir defnyddio tir fel safle gwersylla hamdden dros dro o dan Ddosbarth BA yn yr ardaloedd canlynol, ac ym mhob ardal o'r fath, rhaid gofyn am ganiatâd cynllunio:

(a) safle heneb gofrestredig;
(b) safle mewn ardal gadwraeth arbennig;
(c) ardal perygl i ddiogelwch;
(d) ardal storio ffrwydron milwrol;
(e) safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig;
(f) safle Ramsar;
(g) safle adeilad rhestredig;
(h) safle mewn ardal gwarchodaeth arbennig;
(i) safle o fewn Ardaloedd Llifogydd 2 neu 3;
(j) tir o fewn 100 metr i annedd warchodedig ac eithrio at ddefnydd unrhyw ffordd breifat

2.5 "Annedd warchodedig" yw annedd sydd wedi'i meddiannu gan rywun nad yw'n berchennog nac yn weithredwr y safle gwersylla hamdden. "Ffordd breifat" yw ffordd sydd eisoes yn bodoli lle mae gan weithredwr y safle hawl gyfreithiol i ddefnyddio'r ffordd i gael mynediad i'w dir. Mae'r eithriad uchod yn sicrhau y gall gweithredwyr safleoedd barhau i ddefnyddio ffordd breifat bresennol sy'n pasio o fewn 100 metr i annedd warchodedig yn gyfreithlon.

2.6 Dim ond am un flwyddyn galendr y rhoddir caniatâd, ac wedyn bydd angen cais newydd ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.

<u>Proses: Hysbysiad am y bwriad i ddefnyddio tir fel safle gwersylla dros dro</u>

2.7 Cyn defnyddio tir fel safle gwersylla dros dro, dylai gweithredwr y safle wneud cais i'r awdurdod cynllunio i weld a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer y safle. Rhaid i'r awdurdod cynllunio benderfynu o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn y cais a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw neu beidio.

Proses: Gofynion dilysu

2.8 Rhaid i gais dilys gynnwys copi o'r cynllun safle. Rhaid iddo hefyd roi'r wybodaeth a nodir ym Mharagraff BA3 o Ran 4 o Atodlen 2 i'r GDCG. Hynny yw:

- Y dyddiadau arfaethedig ar gyfer defnyddio'r safle
- Y cyfleusterau arfaethedig ar gyfer gwaredu dŵr toiled a dŵr gwastraff
- Y cyfleusterau arfaethedig ar gyfer gwaredu gwastraff
- Manylion mynediad o'r brif ffordd
- Y cynllun arfaethedig ar gyfer lleiniau ac amwynderau eraill sydd eu hangen

2.9 Mae'r ffurflen gais safonol sy'n hysbysu ACLlau am y bwriad i ddefnyddio tir fel safle gwersylla hamdden, ac i geisio barn ynghylch a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n gofyn am fanylion ar y materion uchod.

2.10 Mae'r ffurflen yn ceisio tynnu sylw'r ceisydd at yr angen am yr wybodaeth hon fel rhan o'r broses ymgeisio. Mae'n gwahodd y ceisydd i nodi unrhyw sylwadau esboniadol perthnasol ar wyneb y ffurflen.

2.11 Nid oes angen gwneud cais ar y ffurflen hon, na nodi'r wybodaeth hon ar wyneb y ffurflen. Cyn belled â bod yr holl wybodaeth uchod o fewn y cais, yna mae'n parhau i fod yn ddilys.

2.12 Nid oes ffi ymgeisio am y math hwn o gais.

Proses: Pethau i'r ACLl eu hystyried

2.13 Pan fydd y manylion wedi cael eu cyflwyno i'w hystyried o dan delerau'r GDCG, yr amcan yw gwerthuso'r effaith bosibl ar yr amgylchedd neu amwynderau o ganlyniad i'r dull arfaethedig o waredu gwastraff a dŵr gwastraff, a'r effaith debygol ar y rhwydwaith ffordd lleol o ganlyniad i'r ffordd fynediad arfaethedig pha mor aml y bydd yn cael ei defnyddio'n seiliedig ar nifer y bobl sy'n defnyddio'r safle.

2.14 Mae angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer caniatâd a roddir i ddatblygiad o dan orchymyn datblygu a allai gael effaith niweidiol ar safle gwarchodedig, fel yr amlinellir yn Rheoliad 75 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae hyn yn cynnwys defnyddio tir dros dro at ddibenion gwersylla. Mae'r risg bosibl i gynefinoedd y mae safleoedd gwersylla dros dro'n ei pheri yn fwyaf tebygol o godi o ganlyniad i waredu gwastraff neu ddŵr gwastraff. Mae'n ofynnol i'r ceisydd nodi'r ffordd o reoli gwastraff a dŵr gwastraff ar y safle fel rhan o'r cais hwn. Dylai hyn gynnwys storio gwastraff neu ddŵr gwastraff ar y safle cyn iddo gael ei gasglu. Felly, mae angen cymeradwyaeth ymlaen llaw pan fydd y cynlluniau ar gyfer gwaredu gwastraff neu ddŵr gwastraff yn creu unrhyw ansicrwydd ynghylch a fyddai'r datblygiad arfaethedig yn osgoi effeithiau niwediol ar gynefin yn effeithiol, neu y gallai beri

risg o lygredd.  Gall y ceisydd ofyn am farn ffurfiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar y mater hwn cyn cyflwyno'r cais.

2.15 Dylid asesu a yw'r cynllun rheoli gwastraff ar gyfer y safle yn cydymffurfio â strategaeth rheoli gwastraff yr awdurdod lleol, gan gynnwys gwahanu gwastraff fel sy'n briodol.  Mae'n bosibl y bydd lefelau'r gwastraff a gynhyrchir gan y safle gwersylla dros y trothwyon ar gyfer casglu gwastraff domestig, ac yn yr achos hwnnw dylai'r cais nodi sut y byddai gwastraff o'r safle yn cael ei waredu'n fasnachol.

2.16 Mae'r cyfyngiadau a osodir gan y GDCG yn atal defnyddio tir o fewn 100 metr i annedd sydd wedi'i meddiannu gan rywun nad yw'n berchennog nac yn weithredwr y safle gwersylla.  Serch hynny, gall amgylchiadau godi lle y gall maint y safle gwersylla arfaethedig, a nifer defnyddwyr y safle, barhau i gael effaith ar amwynderau.

2.17 Bydd nifer y lleiniau arfaethedig a fydd yn cael eu defnyddio ar unrhyw adeg yn rhoi syniad o nifer y teithiau cerbyd o ganlyniad i ddefnyddio'r safle yn y ffordd arfaethedig, ynghyd â pha mor bell yw'r safle o amwynderau, fel siopau neu wasanaethau.  Dylid ystyried y gallu i adael ac ymuno â'r rhwydwaith ffordd lleol i ddarparu ar gyfer y cynnydd tebygol yn nifer y teithiau.  Dylai hyn gynnwys gwelededd ar y pwynt mynediad i'r brif ffordd, a sut mae gweithredwr y safle yn cynnig cadw neu barcio cerbydau yn ystod unrhyw oedi wrth fynd i mewn neu adael y safle oherwydd tagfeydd.  Ni ddylai'r dull arfaethedig o reoli ciwiau o gerbydau gynnwys defnyddio'r brif ffordd ei hun nac effeithio ar draffig ar y brif ffordd.  Dylid rhoi sylw arbennig i fynediad drwy ffyrdd trac sengl, oherwydd bod safleoedd o'r fath yn debygol o gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr y brif ffordd, os nad ydyn nhw'n cael eu rheoli'n ofalus.

2.18 Er y gallai fod disgwyliad neu awydd i ystyried agweddau eraill ar y safle gwersylla arfaethedig ar yr adeg hon, nid yw'r diwygiad i Orchymyn 1995 yn galluogi'r materion hyn i gael eu hystyried mewn penderfyniad ynghylch yr angen am gymeradwyaeth ymlaen llaw ar y cam hwn.  Dylai ACLlau osgoi cyhoeddi penderfyniad sy'n dibynnu ar resymau nad ydyn nhw'n cael eu hystyried ym Mharagraff BA.3 o Ran 4 o Atodlen 2.

<u>Penderfyniad</u>

2.19 Mae gan yr  ACLl 28 diwrnod i benderfynu a rhoi gwybod i'r ceisydd os oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer manylion y datblygiad arfaethedig. Mae'r cyfnod hwn yn dechrau o'r diwrnod ar ôl i'r awdurdod cynllunio lleol gael cais dilys. Ni ellir estyn y cyfnod penderfynu (h.y. cam un – penderfynu a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw), ac ni ddylai'r cam dewisol, cam dau (h.y. lle mae angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, rhoi neu wrthod y gymeradwyaeth honno) gael ei sbarduno am resymau amherthnasol. Felly, rhaid i ACLlau wirio'n gynnar yn ystod y cyfnod penderfynu a yw'r datblygiad arfaethedig yn elwa ar hawliau datblygu a ganiateir (ac nad oes angen cais cynllunio ar ei gyfer) er mwyn caniatáu digon o amser i ystyried os bydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw.

Penderfyniad: Os nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw

2.20 Os yw’r awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, caiff y datblygiad fynd yn ei flaen:
- pan fydd y ceisydd yn cael hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad o'r fath; neu
- ar ôl i'r cyfnod penderfynu o 28 diwrnod ddod i ben.

2.21 Dylai’r ACLl roi hysbysiad am unrhyw benderfyniad cyn gynted ag y bo modd, yn hytrach na chaniatáu i’r cyfnod o 28 diwrnod ddod i ben heb hysbysu’r ceisydd. Felly, mae angen i’r awdurdod lunio a defnyddio dull dibynadwy a dilysadwy o roi gwybod i’r ceisydd am hysbysiad o’r fath.

2.22 Rhaid i'r datblygiad gael ei gyflawni yn unol â'r manylion a gyflwynwyd gyda'r cais am y penderfyniad neu fel y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr awdurdod.

2.23 Mae'n debygol y bydd awydd i weithredwr y safle geisio amrywio dyddiau gweithredu oherwydd dylanwad y tywydd ar y galw am leiniau. Caiff yr ACLl gytuno i amrywio'r diwrnodau gweithredu, cyn i'r tir gael ei ddefnyddio ar y diwrnodau hynny, yn dilyn derbyn cais ysgrifenedig gan y ceisydd yn yr un fformat ag a ddefnyddiwyd yn y cais gwreiddiol. Bydd hyn yn osgoi'r angen am gyflwyno cais llawn newydd.

2.24 Bydd defnyddio tir dros dro ar ddiwrnodau nad yw'r ACLl wedi cytuno arnyn nhw ymlaen llaw yn cael ei ystyried yn ddatblygiad anghyfreithlon.

Penderfyniad: Os oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw

2.25 Os yw’r ACLl yn hysbysu o fewn y cyfnod penderfynu o 28 diwrnod fod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, bydd ganddo wyth wythnos o ddyddiad dilysu’r cais i gyhoeddi ei benderfyniad, neu gyfnod hirach y cytunir arno’n ysgrifenedig (gweler Erthygl 23 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (“DMPWO”)).

2.26 Dylai'r ACLl nodi'n glir yn ei hysbysiad penderfynu yr wybodaeth benodol sydd ei hangen i gefnogi'r cais. Dylai cwmpas a manylion y cais hwnnw am wybodaeth fod yn seiliedig ar y materion a nodwyd wrth ystyried y cais mewn perthynas â chymeradwyaeth ymlaen llaw. Dylen nhw hefyd fod yn gymesur â maint ac effaith bosibl y datblygiad arfaethedig. Bydd gwrthod dilysu cais o'r fath yn ddarostyngedig i'r broses apelio yn erbyn barnu’n annilys a nodir yn Erthygl 24C o'r DMPWO.

2.27 Pe bai'r ACLl yn penderfynu bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, ac wedi hynny yn gwrthod caniatâd, byddai hawl gan y ceisydd i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod caniatâd. Gallai'r ACLl hefyd fod yn atebol i dalu digolledu yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2) 2014.

Amrywio ar ôl ei gyflwyno

2.28 Os yw gweithredwr y safle yn dymuno amrywio'r cynllun ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, dylai manylion yr amrywiad fod yn destun yr un broses gymeradwyo a amlinellir uchod, a dylid ei drin fel cais newydd. Yr eithriad i hyn yw pan fydd gweithredwr y safle yn dymuno amrywio dyddiadau yn unig. Gall gweithredwr y safle gyflwyno cais ysgrifenedig syml cyn amrywio'r dyddiadau.

2.29 Dylid ystyried unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau wedi'u cynllunio sy'n debygol o fod ar y dyddiadau diwygiedig arfaethedig, a gallu'r rhwydwaith ffordd lleol i ddarparu ar gyfer y cynnydd tebygol yn y traffig ar y dyddiadau hynny.

2.30 Dylai'r awdurdod cynllunio naill ai dderbyn neu wrthod y dyddiadau diwygiedig fel sy'n briodol yn eu barn nhw. Dylai'r penderfyniad gael ei gyhoeddi'n ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod, gyda chyfeiriad at gyfeirnod yr achos ar gyfer y cais gwreiddiol ar gyfer y safle gwersylla.

## 3.0 Amaethyddiaeth a Datblygu Coedwigaeth

Proses: Math o ddatblygiad

3.1 Yn achos datblygiad amaethyddol ar dir amaethyddol sydd wedi'i gynnwys mewn unedau o 5 hectar neu fwy (Dosbarth A, Rhan 6 o'r GPDO), neu ddatblygiad coedwigaeth ar dir o unrhyw faint (Rhan 7), ni ellir arfer datblygiad sy'n cynnwys y gweithrediadau canlynol oni bai fod y ffermwr neu ddatblygwr arall wedi gwneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol am benderfyniad ynghylch a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer rhai manylion:

- adeiladau newydd,
- estyniadau a/neu newidiadau sylweddol i adeiladau presennol,
- ffurfio neu addasu ffyrdd amaethyddol a ffyrdd coedwigaeth,
- gwaith cloddio neu ddyddodion gwastraff penodol,
- gosod neu gydosod tanciau pysgod mewn unrhyw ddyfroedd.

3.2 Mae "estyniad sylweddol" a "newid sylweddol" yn golygu unrhyw estyniad neu newid i'r adeilad lle y byddai cynnwys ciwbig yr adeilad gwreiddiol yn cynyddu dros 10% neu y byddai uchder yr adeilad ar ôl ei ymestyn neu ei newid yn fwy nag uchder yr adeilad gwreiddiol[1].

3.3 Mewn Parciau Cenedlaethol ac mewn rhai ardaloedd sy'n agos i Barc Cenedlaethol Eryri (tir Erthygl 1(6))[2], mae pob estyniad a newid i adeiladau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn hon ac mae gosod neu gydosod tanciau pysgod mewn unrhyw ddyfroedd yn golygu bod yn rhaid gwneud cais cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol.

[1] Fel y diffinnir ym Mharagraff D.1 o Ran 6, a Pharagraff A.3 o Ran 7 o Atodlen 2 i'r GPDO.
[2] Fel y diffinnir yn Erthygl 1(6) o'r GPDO.

3.4 Nid yw'r mathau o ddatblygiad ar unedau amaethyddol llai na 5 hectar (ond dim llai na 0.4 hectar) y mae'r GPDO hefyd yn rhoi caniatâd cynllunio ar eu cyfer (gweler Dosbarth B, Rhan 6 o Atodlen 2) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn benderfynu, ac eithrio ar dir Erthygl 1(6), lle mae'r weithdrefn yn berthnasol i estyniadau a newidiadau i adeiladau a darparu, ad-drefnu neu newid ffyrdd.

3.5 Gall lleoli adeilad amaethyddol neu goedwigaeth newydd, ffordd, gwaith cloddio neu ddyddodiad gwastraff, neu danc pysgod gael effaith sylweddol ar y dirwedd gyfagos. Dylid cymhathu datblygiadau i'r dirwedd heb amharu ar y swyddogaethau y bwriedir iddynt eu cyflawni. Mae rhagor o gyngor ar ddyluniad, edrychiad a lleoliad datblygiadau amaethyddol a choedwigaeth ar gael yn Atodiad A Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6:Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010). Mae egwyddorion cyffredinol dylunio da wedi'u nodi yn Adran 3 o Bolisi Cynllunio Cymru ac ymhelaethir ymhellach arnynt yn Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016).

Proses: Gofynion dilysu

3.6 I fod yn gais dilys, mae paragraffau A.2 a B.6 Rhan 6, a pharagraff A.2(1) Rhan 7 o'r GPDO yn mynnu bod y canlynol ynghlwm wrth gais am gymeradwyaeth ymlaen llaw:

- disgrifiad ysgrifenedig o'r datblygiad arfaethedig,
- disgrifiad ysgrifenedig o'r deunyddiau i'w defnyddio,
- cynllun yn dangos y safle;
- y ffi gywir.

Proses: Ystyriaethau ar gyfer yr Awdurdod Cynllunio Lleol

3.7 Ar ôl cyflwyno manylion i'w cymeradwyo o dan delerau'r GPDO, dylid anelu at werthuso effaith y datblygiad ar y dirwedd o ran amwynder gweledol. Ar ben hynny, mae'n hanfodol cadw henebion a'r ardaloedd cyfagos, safleoedd archaeolegol, adeiladau rhestredig a'u lleoliadau, ac ardaloedd o werth cadwraeth natur cydnabyddedig. Wrth wneud eu penderfyniad, gall awdurdodau cynllunio lleol ystyried y canlynol:

- Lleoliad, dyluniad ac edrychiad allanol adeilad amaethyddol neu goedwigaeth newydd arfaethedig, a'i berthynas â'r hyn sydd o'i gwmpas.
- Lleoliad a dulliau adeiladu ffyrdd.
- Lleoliad gwaith cloddio neu ddyddodion gwastraff sydd, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn fwy na 0.5 hectar yn yr uned.
- Lleoliad ac edrychiad tanciau pysgod (cewyll).

3.8 Dylid ystyried y manylion yn debyg iawn i geisiadau am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gedwir yn ôl ar ôl rhoi caniatâd cynllunio amlinellol. Wrth weithredu'r rheolaethau hyn, dylai awdurdodau cynllunio lleol bob amser roi

ystyriaeth lawn i anghenion gweithredol y diwydiannau amaethyddol a choedwigaeth, ac i'r angen i osgoi gosod unrhyw ofynion diangen neu rhy gostus. Yn aml, bydd amcanion cadwraeth hirdymor yn cael eu cyflawni orau drwy sicrhau bod yr economi wledig, gan gynnwys ffermio a choedwigaeth sy'n amlwg yn y dirwedd wledig, yn gallu gweithredu'n llwyddiannus.

3.9 Mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i ffyrdd coedwigaeth. Fel arfer, bydd ffordd newydd yn helpu i blannu coed newydd neu gynaeafu coed. Mae hyn yn amodol ar drefn drwyddedu ar wahân drwy Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n cynnwys ymgynghori ag awdurdodau lleol a chyrff eraill. Dylai ymgeiswyr nodi unrhyw gynigion ar gyfer ffyrdd yn eu cais trwyddedu i sicrhau bod derbynioldeb amgylcheddol ffyrdd newydd a lleoli a thirlunio'r coetir yn cael eu hystyried gyda'i gilydd. Ni ddylai awdurdodau cynllunio lleol arfer eu hawl i alw am fanylion llawn ffyrdd a oedd wedi cael eu cynnwys mewn cais am drwydded a'u cymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ôl ymgynghori â'r awdurdod lleol.

<u>Penderfyniad:</u>

3.10 Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol 28 diwrnod i benderfynu a rhoi gwybod i'r ceisydd os oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer manylion y datblygiad arfaethedig. Mae'r cyfnod hwn yn dechrau o'r diwrnod ar ôl i'r awdurdod cynllunio lleol gael cais dilys. Nid oes lle i ymestyn y cyfnod penderfynu (hy cam un – penderfynu a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw), ac ni ddylai'r cam dewisol, cam dau (hy lle mae angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, rhoi neu wrthod y gymeradwyaeth honno) gael ei sbarduno am resymau amherthnasol. Felly, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol wirio'n gynnar yn ystod y cyfnod penderfynu bod y datblygiad arfaethedig yn elwa ar hawliau datblygu a ganiateir (ac nad oes angen cais cynllunio ar ei gyfer) er mwyn caniatáu digon o amser i ystyried lle mae angen cymeradwyaeth ymlaen llaw.

3.11 Ar yr amod bod holl ofynion y GPDO yn cael eu bodloni, ni ddylid ystyried yr egwyddor o ganiatáu'r datblygiad ai peidio. Dim ond mewn achosion lle mae'r awdurdod yn credu bod cynnig penodol yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr hyn sydd o'i gwmpas y byddai Llywodraeth Cymru'n ystyried ei bod yn angenrheidiol i'r awdurdod fynnu bod cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol.

3.12 Yn aml, bydd cyfle am drafodaethau anffurfiol gyda'r datblygwr cyn cyflwyno cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw i'r awdurdod cynllunio lleol. O'u rhan nhw, efallai y bydd datblygwyr yn ei gweld hi'n ddefnyddiol darparu mwy na'r wybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol gan y GPDO wrth roi gwybod i awdurdodau am eu cynigion, os yw hyn ar gael yn rhwydd. Er enghraifft, gallai cynlluniau neu frasluniau ychwanegol ar gyfer adeilad newydd arfaethedig egluro effaith weledol y cynnig.

Penderfyniad: Pan nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw

3.13 Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, gall y datblygiad fynd yn ei flaen:

i. pan fydd y gweithredwr yn cael hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad o'r fath; neu
ii. ar ôl i'r cyfnod penderfynu o 28 diwrnod ddod i ben.

3.14 Dylai'r awdurdod roi hysbysiad o unrhyw benderfyniad cyn gynted ag y bo modd, yn hytrach na chaniatáu i'r cyfnod o 28 diwrnod ddod i ben heb hysbysu'r ceisydd. Felly, mae angen i'r awdurdod greu a defnyddio ffyrdd dibynadwy a dilysadwy o roi gwybod i'r ceisydd am hysbysiad o'r fath.

3.15 Rhaid i'r datblygiad gael ei gyflawni yn unol â'r manylion a gyflwynwyd gyda'r cais am y penderfyniad neu fel y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr awdurdod.

Penderfyniad: Pan fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw

3.16 Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu o fewn y cyfnod penderfynu o 28 diwrnod bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, bydd ganddo wyth wythnos o ddyddiad dilysu'r cais i gyhoeddi ei benderfyniad, neu gyfnod hirach y cytunir arno'n ysgrifenedig (gweler Erthygl 23 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("DMPWO")).

3.17 Mae paragraffau A.2(2)(iv)(aa) a B.6(b) o Ddosbarthiadau A a B yn y drefn honno o Ran 6 a pharagraff A.2(1)(d)(i) o Ran 7 o'r GPDO yn mynnu bod y ceisydd yn arddangos hysbysiad safle ar neu ger y tir y mae'r datblygiad arfaethedig i'w gyflawni arno. Rhaid arddangos yr hysbysiad o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad yr oedd yr awdurdod cynllunio lleol wedi hysbysu'r ceisydd bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, a rhaid iddo fod yn ei le am ddim llai na 21 diwrnod. Bydd yr hysbysiad safle yn cynnwys:

- enw'r ceisydd,
- cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig,
- disgrifiad o'r datblygiad a'r deunyddiau arfaethedig,
- datganiad bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer dyluniad, lleoliad ac edrychiad allanol yr adeilad, neu leoliad a dull adeiladu'r ffordd breifat,
- enw a chyfeiriad yr awdurdod cynllunio lleol,
- llofnod a dyddiad ar ran y ceisydd.

3.18 Os yw'r hysbysiad, heb unrhyw fai neu fwriad ar ran y ceisydd, yn cael ei dynnu, ei guddio neu ei ddifwyno yn ystod y cyfnod o 21 diwrnod, dylid ystyried bod y ceisydd wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Fodd bynnag, disgwylir i'r ceisydd gymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad ac arddangos un newydd os caiff ei dynnu neu ei ddifrodi.

3.19 Yn amodol ar y meini prawf arferol sy'n rheoli'r defnydd o amodau mewn caniatâd cynllunio, gellir gosod amodau pan roddir cymeradwyaeth. Mae canllawiau ar amodau cynllunio ar gael yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2024:Defnyddio amodau cynllunio i reoli datblygu.

Hysbysiad cwblhau:

3.20 Ar gyfer datblygiadau penodol o dan Ran 6 (Adeiladau a Gweithrediadau Amaethyddol) y GPDO, mae'n rhaid i'r datblygwr hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig o fewn saith diwrnod i gwblhau'r datblygiad yn sylweddol. Dyma'r mathau o ddatblygiadau sy'n golygu bod yr hysbysiad hwn yn ofynnol:

- Dosbarth A(a)- codi, ymestyn neu newid adeilad
- Dosbarth B(a)- ymestyn neu newid adeilad amaethyddol

## 4.0 Datblygiad gan Weithredwyr Systemau Cod Telegyfathrebu

Proses: Math o ddatblygiad

4.1 O dan baragraff A.2(4) o Ran 24 o'r GPDO, mae datblygiad penodol a ganiateir yn amodol ar y gweithredwr yn gwneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol am benderfyniad ynghylch a fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer manylion penodol. Mae hyn yn berthnasol i ddatblygiad Dosbarth A (oni bai ei bod yn argyfwng, gweler adran 3.26-3.29 isod) sy'n cynnwys adeiladu, gosod, newid neu ddisodli:

(i) mast;
(ii) antena ar adeilad neu strwythur (heblaw mast) lle byddai'r antena (gan gynnwys unrhyw strwythur ategol) chwe metr yn fwy nag uchder yr adeilad neu'r strwythur lle mae'n cael ei osod neu y bydd yn cael ei osod;
(iii) blwch ffôn cyhoeddus;
(iv) uned cyfarpar radio lle mae cyfaint unrhyw ddatblygiad unigol yn fwy na 2.5 metr ciwbig;

4.2 Ar gyfer datblygiad o'r fath, rhaid i'r datblygwr wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol am ei benderfyniad ynghylch a fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer lleoliad ac edrychiad y datblygiad arfaethedig. Bydd gan yr awdurdod cynllunio lleol 56 diwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad y mae'n cael cais dilys, i benderfynu a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer y lleoliad a'r edrychiad, ac i hysbysu'r ymgeisydd am y penderfyniad i wrthod neu i roi'r gymeradwyaeth honno. Nid oes pŵer i ymestyn y cyfnod o 56 diwrnod. Os na fydd penderfyniad yn cael ei wneud, neu os na fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu'r datblygwr am ei benderfyniad o fewn 56 diwrnod, tybir bod caniatâd wedi'i roi.

Proses: Gofynion dilysu

4.3 Mae paragraff A.3(4) o Ran 24 yn mynnu bod y canlynol ynghlwm wrth gais i'r awdurdod cynllunio lleol[3]:

a) cyfeiriad cyswllt y datblygwr a'i gyfeiriad e-bost os oes ganddo un;
b) disgrifiad ysgrifenedig o'r datblygiad arfaethedig;
c) cynllun yn nodi ei leoliad arfaethedig;
d) tystiolaeth bod y perchennog neu denant amaethyddol y tir y mae'r cais yn berthnasol iddo wedi cael eu hysbysu am y datblygiad arfaethedig;
e) pan fo'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys gosod mast o fewn 3 cilomedr i berimedr maes glanio, tystiolaeth bod yr Awdurdod Hedfan Sifil, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn neu weithredwr y maes glanio (fel y bo'n briodol) wedi cael hysbysiad o'r cynnig;
f) y ffi gywir.

4.4 Hefyd, ar gyfer datblygiad sy'n ymwneud ag adeiladu neu osod un antena neu fwy (oni bai eu bod i gyd yn antena cell fach), rhaid i'r cais hefyd gynnwys datganiad y bydd yr offer a'r gosodiad, wrth eu hadeiladu neu eu gosod, yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ICNIRP).

4.5 Mae rhagor o ganllawiau ar gael yn y Cod Arferion Gorau ar gyfer Datblygu Rhwydweithiau Ffonau Symudol, gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol y mae gweithredwyr yn cael eu hannog yn gryf i'w darparu i'r awdurdod cynllunio lleol wrth wneud cais.

4.6 Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol anfon cadarnhad at y datblygwr o'r dyddiad y cafwyd y cais ac yr ystyrir ei fod yn ddilys. Dyddiad cael cais dilys, yn unol â'r diffiniad yn Rhan 24 o'r GPDO, yw diwrnod cyntaf y cyfnod penderfynu o 56 diwrnod.

Proses: Ymgynghori

4.7 Ar ôl cael cais dilys, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol:

(a) Ar gyfer datblygiad sydd, yn eu barn hwy, yn perthyn i gategori a nodir yn y tabl yn atodlen 4 i'r DMPWO (fel y'i diwygiwyd), ymgynghori â'r awdurdod neu'r person a grybwyllir mewn perthynas â'r categori hwnnw, ac eithrio—
   i. mai'r awdurdod cynllunio lleol yw'r awdurdod a grybwyllir felly; neu
   ii. bod yr awdurdod neu'r person a grybwyllir felly wedi hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol nad yw'n dymuno ymgynghori,

a rhoi o leiaf 14 diwrnod i'r ymgyngoreion gyflwyno sylwadau.

[3] Gweler Rhestr 12 yn Adran 7 Atodiad: Ceisiadau Cynllunio – Rhestrau o Ofynion Dilysu

(b) Yn achos datblygiad nad yw'n cyd-fynd â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn ardal y tir sy'n berthnasol i'r cais neu a fyddai'n effeithio ar hawl tramwy y mae Rhan 3 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (hawliau tramwy cyhoeddus) yn berthnasol iddi, rhoi hysbysiad o'r datblygiad arfaethedig yn y ffurf briodol a nodir yn Atodlen 3 i'r DMPWO (fel y'i diwygiwyd)—

i. drwy arddangos ar y safle mewn o leiaf un man ar y tir neu ger y tir sy'n berthnasol i'r cais am ddim llai na 21 diwrnod a
ii. drwy hysbysebu'n lleol.

(c) Yn achos datblygiad nad yw'n perthyn i baragraff (b) uchod ond sy'n cynnwys datblygiad a gyflawnir ar safle sydd ag arwynebedd o un hectar neu fwy, rhoi hysbysiad o'r datblygiad arfaethedig yn y ffurf briodol a nodir yn Atodlen 3 i'r DMPWO (fel y'i diwygiwyd)—

i. drwy arddangos ar y safle mewn o leiaf un man ar y tir neu ger y tir sy'n berthnasol i'r cais am ddim llai na 21 diwrnod, neu
ii. drwy hysbysu unrhyw berchennog neu feddiannydd cyffiniol, a
iii. drwy hysbysebu'n lleol.

(d) Yn achos datblygiad nad yw'n perthyn i baragraffau (b) na (c) uchod, rhoi hysbysiad o'r datblygiad arfaethedig yn y ffurf briodol a nodir yn Atodlen 3 i'r DMPWO (fel y'i diwygiwyd)—

i. drwy arddangos ar y safle mewn o leiaf un man ar y tir neu ger y tir sy'n berthnasol i'r cais am ddim llai na 21 diwrnod, neu
ii. drwy hysbysu unrhyw berchennog neu feddiannydd cyffiniol.

4.8 Dylai'r awdurdod cynllunio lleol ddechrau ymgynghori a hysbysu fel y nodir yn y DMPWO cyn gynted ag y bo modd ar ôl cael cais dilys. Mae hyn er mwyn caniatáu digon o amser i ystyried y cais yng ngoleuni'r sylwadau a geir oherwydd yr angen i wneud penderfyniad o fewn y cyfnod o 56 diwrnod.

4.9 Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried unrhyw sylwadau perthnasol a geir. Efallai y bydd hefyd yn dymuno trafod addasiadau posibl i'r datblygiad arfaethedig gyda'r datblygwr i liniaru pryderon a godir gan ymgyngoreion penodol.

Proses: Ystyriaethau ar gyfer yr Awdurdod Cynllunio Lleol

4.10 Gall y ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ar y cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw mewn cysylltiad ag edrychiad y mast a'r cyfarpar ategol gynnwys deunyddiau, lliw a dyluniad. Mae'n bosibl y bydd defnyddio deunyddiau a lliw priodol yn galluogi mast i weddu'n haws i'r amgylchedd. Mae'r nodweddion dylunio y gallai awdurdod fod eisiau eu hystyried yn cynnwys dimensiynau; siâp cyffredinol; ac a yw'r gwaith adeiladu'n soled neu'n ffurfio fframwaith agored. Dylent hefyd ystyried, gyda'r datblygwr, a oes dyluniadau amgen ar gael a allai fod yn fwy addas i'r amgylchedd lleol.

4.11 Gall y ffactorau sy'n ymwneud â lleoli gynnwys:

- uchder y safle mewn perthynas â'r tir o'i amgylch;
- bodolaeth nodweddion topograffig a llystyfiant naturiol;
- yr effaith ar y nenlinell neu'r gorwel;
- y safle fel y bydd yn cael ei weld o unrhyw ochr, gan gynnwys o'r tu allan i ardal yr awdurdod ei hun;
- y safle mewn perthynas ag ardaloedd sydd wedi'u dynodi am eu gwerth golygfaol neu gadwraeth;
- y safle mewn perthynas â mastiau, strwythurau neu adeiladau presennol, gan gynnwys adeiladau o gymeriad hanesyddol neu draddodiadol;
- y safle mewn perthynas ag eiddo preswyl.

4.12 Wrth ystyried lleoliad ac edrychiad mast ynghyd â'i ddatblygiad cysylltiedig, bydd cwmpas y gwaith tirweddu a sgrinio i leihau effaith y datblygiad ar yr hyn sydd o'i amgylch yn ystyriaeth bwysig.

4.13 Mae rhagor o ganllawiau ar leoli a dylunio ar gael yn y Cod Arferion Gorau ar gyfer Datblygu Rhwydweithiau Ffonau Symudol.

Penderfyniad:

4.14 Bydd gan yr awdurdod cynllunio lleol 56 diwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad y mae'n cael cais dilys, i benderfynu a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer y lleoliad a'r edrychiad, *ac* i hysbysu'r ymgeisydd am y penderfyniad i wrthod neu i roi'r gymeradwyaeth honno. Mae hyn yn wahanol i'r broses cymeradwyo ymlaen llaw arall ar gyfer Rhannau 6,7 a 31 y cyfeirir atynt hefyd yn yr atodiad hwn, ac mae gan awdurdodau cynllunio lleol 8 wythnos ar ôl hysbysu bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw i roi neu i wrthod y gymeradwyaeth honno.

4.15 Nid oes pŵer i ymestyn y cyfnod o 56 diwrnod. Os na fydd penderfyniad yn cael ei wneud, neu os na fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu'r datblygwr am ei benderfyniad o fewn 56 diwrnod, tybir bod caniatâd wedi'i roi.

4.16 Yn unol â hynny, gall ei gwneud yn anodd i awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio'r pwyllgor cynllunio wrth benderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw, ac felly dylid cynnwys trefniadau effeithiol i ddirprwyo'r gwaith o wneud penderfyniadau i swyddogion yng nghynllun dirprwyo pob awdurdod.

Penderfyniad: Pan nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw

4.17 Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, gall y datblygiad fynd yn ei flaen:

i. pan fydd y gweithredwr yn cael hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad o'r fath; neu

ii. ar ôl i'r cyfnod penderfynu o 56 diwrnod ddod i ben.

4.18 Dylai’r awdurdod roi hysbysiad o unrhyw benderfyniad cyn gynted ag y bo modd, yn hytrach na chaniatáu i’r cyfnod o 56 diwrnod ddod i ben heb hysbysu’r ceisydd. Felly, mae angen i’r awdurdod greu a defnyddio ffyrdd dibynadwy a dilysadwy o roi gwybod i’r ceisydd am hysbysiad o’r fath.

4.19 Rhaid i'r datblygiad gael ei gyflawni yn unol â'r manylion a gyflwynwyd gyda'r cais am y penderfyniad neu fel y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr awdurdod.

Penderfyniad: Pan fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw

4.20 Os yw’r awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer lleoliad a/neu edrychiad y datblygiad arfaethedig, dylai roi hysbysiad ysgrifenedig prydlon i’r gweithredwr o’r penderfyniad hwnnw.

4.21 Yn dilyn hyn, rhaid i’r awdurdod cynllunio lleol sicrhau bod y ceisydd yn cael ei benderfyniad ysgrifenedig i roi neu i wrthod cymeradwyaeth cyn diwedd y cyfnod penderfynu o 56 diwrnod.

4.22 Pan fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu’r ceisydd bod cymeradwyaeth wedi’i rhoi o fewn y cyfnod o 56 diwrnod, caiff y datblygiad ddechrau ar ôl cael y penderfyniad hwnnw. Pan fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu’r ceisydd bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ond wedyn yn methu rhoi neu wrthod cymeradwyaeth o fewn y cyfnod o 56 diwrnod, caiff y datblygiad fynd rhagddo ar ôl i’r cyfnod hwnnw ddod i ben.

4.23 Yn y naill achos a’r llall, rhaid i’r datblygiad gael ei gyflawni yn unol â’r manylion a gyflwynwyd gyda’r cais neu fel y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol lle rhoddwyd hysbysiad. Gall yr awdurdod cynllunio lleol gytuno’n ysgrifenedig ar fân ddiwygiadau i’r manylion gwreiddiol a gymeradwywyd ymlaen llaw o dan baragraff A.3(8) o Ran 24.

4.24 Gall yr awdurdod cynllunio lleol wrthod cymeradwyaeth i’r lleoliad a/neu’r edrychiad os yw’n credu bod cyfiawnhad dros hynny. Rhaid i'r awdurdod wneud hynny drwy hysbysu'r ceisydd, o fewn y cyfnod penderfynu o 56 diwrnod, o'i benderfyniad i wrthod cymeradwyaeth. Rhaid rhoi rhesymau dros wrthod.

4.25 Pan fydd awdurdod yn credu y gellir cyfiawnhau gwrthod cymeradwyaeth, dylai drafod gyda’r gweithredwr yn gyntaf ynghylch y posibilrwydd o addasu lleoliad a/neu edrychiad y datblygiad arfaethedig. Wrth arfer y pŵer hwn, dylai’r awdurdod cynllunio lleol ystyried y rhwymedigaethau ar weithredwyr systemau cod i ddarparu gwasanaeth, ac o gyfyngiadau technegol ar ddatblygu rhwydweithiau.

Hysbysiad o Ddatblygiad Brys

4.26 Nid yw'r weithdrefn cymeradwyo ymlaen llaw yn berthnasol i waith datblygu brys a wneir o dan Ran 24 o'r GPDO. Mae hyn yn caniatáu i weithredwyr wneud gwaith hanfodol i gynnal neu adfer gwasanaethau telegyfathrebu heb gael caniatâd ymlaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol.

4.27 Mae unrhyw ddatblygiad Rhan 24 a gyflawnir mewn argyfwng yn amodol, o dan baragraff A.3(11), ar y gofyniad bod yn rhaid i'r gweithredwr roi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol o ddatblygiad o'r fath cyn gynted ag y bo'n bosibl ar ôl i'r argyfwng godi. Dylid nodi bod y gofyniad i hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol ar wahân i'r gofyniad o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 lle hysbysir Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl ar ôl i ddatblygiadau brys ddigwydd ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

4.28 Er nad oes diffiniad statudol o'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn ddatblygiad brys o dan Ran 24 o'r GPDO, gall y diffiniad o 'waith brys' a roddir ym mharagraff 51(9) o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 fod yn ganllaw cyffredinol yng nghyd-destun datblygiad gan weithredwyr systemau cod telegyfathrebu:

ystyr "*gwaith brys*" yw gwaith a wneir er mwyn atal unrhyw beth sydd eisoes yn digwydd, neu i atal unrhyw beth sydd ar fin digwydd, ac sy'n debygol o beri—

a) perygl i bobl neu eiddo,
b) amhariad ar unrhyw wasanaeth a ddarperir gan rwydwaith y gweithredwr, neu
c) golled sylweddol i'r gweithredydd,

ac unrhyw waith arall y mae'n rhesymol (o dan yr holl amgylchiadau) ei wneud gyda'r gwaith hwnnw.

4.29 Penderfynir a yw datblygiad penodol yn ddatblygiad brys ar sail ffeithiau'r achos unigol.

## 5.0 Dymchwel Adeiladau

Proses: Math o ddatblygiad

5.1 Mae bron bob math o waith dymchwel gweithrediadau adeiladu yn waith datblygu sydd angen caniatâd cynllunio (gweler adran 3.5 o'r Llawlyfr Rheoli Datblygu). Fodd bynnag, mae hawliau datblygu eang a ganiateir yn cael eu rhoi gan Ddosbarth A, Rhan 31 o Atodlen 2 i'r GPDO ar gyfer dymchwel unrhyw weithrediad adeiladu[4] sy'n cynnwys dymchwel adeilad.

5.2 Mae'r gwaith dymchwel a ganiateir gan Ddosbarth A o Ran 31 o'r GPDO yn amodol ar y datblygwr yn gwneud cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw i'r awdurdod cynllunio lleol, fel y nodir ym mharagraff A.2(b). Mae'r cais hwn yn galluogi'r awdurdod cynllunio lleol i benderfynu, o fewn cyfnod penderfynu o 28 diwrnod, a fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod i'r dull

[4] Fel y diffinnir yn adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

dymchwel ac unrhyw waith adfer arfaethedig ar y safle. Mae hyn yn rhoi'r modd i awdurdodau cynllunio lleol reoleiddio manylion y gwaith dymchwel er mwyn lleihau ei effaith ar amwynder lleol.

5.3 Fodd bynnag, nid yw'r hawliau datblygu a ganiateir hyn yn berthnasol os yw cyflwr anniogel/amhreswyliadwy'r adeilad yn ganlyniad i weithredu neu ddiffyg gweithredu gan unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir y mae'r adeilad yn sefyll arno, a bod modd ei wneud yn ddiogel drwy waith atgyweirio neu waith i roi cymorth dros dro. Bydd angen cais cynllunio yn yr amgylchiadau hyn.

5.4 Mae dau amgylchiad lle nad oes angen cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw. Yn gyntaf, lle mae'r gwaith dymchwel yn perthyn i'r diffiniad o "waith dymchwel wedi'i eithrio", fel y mae'n cael ei ddiffinio ym mharagraff A.3:

a) ar dir sy'n destun caniatâd cynllunio, ar gyfer ailddatblygu'r tir, a roddwyd ar gais neu y tybir ei fod wedi'i roi o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
b) y mae'n rhaid ei gyflawni neu y caniateir ei gyflawni gan neu o dan unrhyw ddeddfiad, neu
c) y mae'n rhaid ei gyflawni yn rhinwedd rhwymedigaeth berthnasol.

5.5 Yn ail, lle mae angen dymchwel ar frys am resymau iechyd neu ddiogelwch. Fodd bynnag, rhaid i'r datblygwr, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi cyfiawnhad ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol dros y gwaith dymchwel.

5.6 Sylwch fod hawliau datblygu a ganiateir pellach hefyd yn cael eu darparu yn Nosbarth B Rhan 31 o'r GPDO, yn benodol ar gyfer unrhyw weithrediad adeiladu sy'n cynnwys dymchwel y cyfan neu unrhyw ran o unrhyw giât, ffens, wal neu ddull amgáu arall. Nid oes cyfyngiadau nac amodau ar yr hawl datblygu hon a ganiateir ac nid yw'r weithdrefn cymeradwyo ymlaen llaw yn berthnasol.

5.7 Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth hefyd ar gyfer dymchwel y rhan fwyaf o adeiladau mewn ardal gadwraeth (gweler adran 161(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023).

<u>Proses: Gofynion dilysu</u>

5.8 Mae paragraff A.2(b)(ii) o Ran 31 yn mynnu bod y canlynol ynghlwm wrth gais i'r awdurdod cynllunio lleol[5]:

- Disgrifiad ysgrifenedig o'r datblygiad arfaethedig;
- Datganiad bod y ceisydd wedi arddangos hysbysiad safle yn unol ag A.2(b)(iii) o Ran 31 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd);
- Y ffi gywir.

[5] Gweler Rhestr 13 yn Adran 7 Atodiad: Ceisiadau Cynllunio – Rhestrau o Ofynion Dilysu

5.9 Ar ôl cyflwyno'r cais i'r awdurdod cynllunio lleol, rhaid i'r ceisydd arddangos hysbysiad safle ar neu ger y tir lle mae'r adeilad sydd i'w ddymchwel wedi'i leoli. Rhaid i'r hysbysiad fod yn ei le am ddim llai na 21 diwrnod o'r cyfnod penderfynu o 28 diwrnod, sy'n dechrau ar y dyddiad y cyflwynwyd y cais i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd yr hysbysiad safle yn cynnwys:

a) enw'r ceisydd,
b) disgrifiad, gan gynnwys cyfeiriad, o'r adeilad neu'r adeiladau y bwriedir eu dymchwel,
c) datganiad bod y ceisydd wedi gwneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol am benderfyniad ynghylch a fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod i'r dull dymchwel ac unrhyw waith adfer arfaethedig ar y safle,
d) y dyddiad y mae'r ceisydd yn bwriadu gwneud y gwaith dymchwel,
e) enw a chyfeiriad yr awdurdod cynllunio lleol.

5.10 Dylid llofnodi a dyddio'r hysbysiad safle gan neu ar ran yr ymgeisydd.

5.11 Os yw'r hysbysiad, heb unrhyw fai neu fwriad ar ran y ceisydd, yn cael ei dynnu, ei guddio neu ei ddifwyno yn ystod y cyfnod o 21 diwrnod, dylid ystyried bod y ceisydd wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Fodd bynnag, disgwylir i'r ceisydd gymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad ac arddangos un newydd os caiff ei dynnu neu ei ddifrodi.

<u>Proses: Ystyriaethau ar gyfer yr Awdurdod Cynllunio Lleol</u>

5.12 Dylai awdurdodau cynllunio lleol fynnu bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer y dull dymchwel ac unrhyw waith adfer arfaethedig ar y safle dim ond os yw'n credu bod cynnig penodol yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr hyn sydd o'i gwmpas. Ni fydd pob cynnig dymchwel a gyflwynir o dan y ddarpariaeth cymeradwyo ymlaen llaw yn cael effaith o'r fath.

<u>Penderfyniad:</u>

5.13 Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol 28 diwrnod i benderfynu a hysbysu'r ymgeisydd os oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer y dull dymchwel a bod angen unrhyw waith adfer ar y safle. Mae'r cyfnod hwn yn dechrau o'r diwrnod ar ôl i'r awdurdod cynllunio lleol gael cais dilys.

5.14 Nid oes lle i ymestyn y cyfnod penderfynu (hy cam un – penderfynu a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw), ac ni ddylai'r cam dewisol, cam dau (hy lle mae angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, rhoi neu wrthod y gymeradwyaeth honno) gael ei sbarduno am resymau amherthnasol.

<u>Pan nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw</u>

5.15 Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, gall y gwaith dymchwel fynd yn ei flaen:

i. pan fydd y datblygwr yn cael hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad o'r fath; neu
ii. ar ôl i'r cyfnod penderfynu o 28 diwrnod ddod i ben.

5.16 Dylai'r awdurdod roi hysbysiad o unrhyw benderfyniad cyn gynted ag y bo modd, yn hytrach na chaniatáu i'r cyfnod o 28 diwrnod ddod i ben heb hysbysu'r ceisydd. Felly, mae angen i'r awdurdod greu a defnyddio ffyrdd dibynadwy a dilysadwy o roi gwybod i'r ceisydd am hysbysiad o'r fath.

5.17 Rhaid i'r datblygiad gael ei gyflawni yn unol â'r manylion a gyflwynwyd gyda'r cais am y penderfyniad neu fel y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr awdurdod.

Penderfyniad: Pan fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw

5.18 Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu o fewn y cyfnod penderfynu o 28 diwrnod bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, bydd ganddo wyth wythnos o ddyddiad dilysu'r cais i gyhoeddi ei benderfyniad, neu gyfnod hirach y cytunir arno'n ysgrifenedig (gweler Erthygl 23 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("DMPWO")).

## 6.0 Terfynau Amser ar gyfer Cychwyn

6.1 Ym mhob achos, rhaid i'r datblygiad ddechrau:

- Os yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi rhoi cymeradwyaeth, o fewn cyfnod o bum mlynedd o'r dyddiad y rhoddwyd y gymeradwyaeth;
- Mewn unrhyw achos arall, o fewn cyfnod o bum mlynedd o'r dyddiad y cafodd yr awdurdod cynllunio lleol y cais.

## 7.0 Hawl i Apelio

7.1 Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio lleol i fynnu cymeradwyaeth ymlaen llaw, hy y penderfyniad yng ngham un y broses ymgeisio (gweler adran 1.2).

7.2 Fodd bynnag, o dan adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, mae gan ymgeiswyr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol i wrthod cymeradwyaeth, neu ei gymeradwyaeth sy'n amodol ar amodau y maent yn anghytuno â nhw, neu fethiant i benderfynu ar gais a wnaed o dan y weithdrefn cymeradwyo ymlaen llaw, hy y penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod cynllunio lleol yng ngham dau'r broses ymgeisio. Rhaid gwneud apeliadau o'r fath i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru o fewn chwe mis i ddyddiad yr hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol.

7.3 Yn gyffredinol, mae apeliadau cymeradwyaeth ymlaen llaw yn dilyn yr un gweithdrefnau ac amserlenni ag apeliadau sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio cyffredin. Mae canllawiau am y gweithdrefnau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

7.4 Os gwrthodir cymeradwyaeth a bod hynny'n cael ei gadarnhau ar apêl, gall ymgeisydd wneud cais o'r newydd am benderfyniad ynghylch cymeradwyaeth ymlaen llaw i'r awdurdod cynllunio lleol. Gall unrhyw gais newydd gynnwys manylion am leoliad a/neu edrychiad gwahanol. Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried pob cais unigol eto ar ei rinweddau unigol.

7.5 Dylid nodi nad yw gwrthod cymeradwyaeth ymlaen llaw o dan y naill drefn na'r llall yn dileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safle unigol. Dim ond gwrthodiad i'r cais penodol sy'n cael ei ystyried ydyw.

## 8.0 Digolledu

8.1 Nid oes unrhyw ddigolllediad yn daladwy dan Adran 108 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 os gwrthodir cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod cynllunio.

## 9.0 Ffioedd

9.1 Rhaid cynnwys y ffi berthnasol gyda chais am benderfyniad ynghylch a fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol. Ar hyn o bryd, y ffi yw £100 ar gyfer cymeradwyaeth ymlaen llaw sy'n ymwneud â Rhannau 6 a 7 o'r GPDO a £460 ar gyfer cymeradwyaeth ymlaen llaw sy'n ymwneud â Rhan 24 fel y nodir yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020, Rhif 745 (Cy.168). Mae rhagor o ganllawiau ynghylch ffioedd ar gael yn Atodiad 7 – Cyfrifo'r ffi.

## 10.0 Cymhwyso'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd at y Broses Cymeradwyo Ymlaen Llaw

10.1 Wrth ystyried cais am Gymeradwyaeth Ymlaen Llaw, mae'r ddyletswydd yn rheoliad 9(3) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ('Rheoliadau 2010'), fel y'u diwygiwyd, yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi sylw i ofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb 92/43/EEC ar warchod cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid gwyllt).

Y profion sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd

10.2 Mae'r ystyriaeth sydd ei hangen ar gyfer cais sy'n elwa ar hawliau datblygu a ganiateir yn debyg iawn i'r ystyriaeth a roddir i gais cynllunio o ran y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae angen i awdurdod cynllunio lleol ystyried:

- A gyflwynwyd gwybodaeth ddigonol iddynt allu penderfynu a yw'r cynnig yn bodloni diben rhanddirymu priodol y Gyfarwyddeb Cynefinoedd;
- A oes unrhyw ddewis amgen boddhaol i'r cynnig;

- A fydd y cam gweithredu a awdurdodir yn peidio â niweidio cynhaliaeth poblogaeth y rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn eu hamgylchedd naturiol.

10.3 Gallai 'diben rhanddirymu priodol' fod yn ddiben y cyfeirir ato yn rheoliad 53(2)(e) Rheoliadau 2010, sy'n nodi dibenion diogelu iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd neu resymau hanfodol diddordeb cyhoeddus tra phwysig. Y dibenion hyn yw'r rhai a ddefnyddir amlaf i gyfiawnhau rhanddirymiad o'r Gyfarwyddeb; fodd bynnag, mae dibenion eraill yn bodoli hefyd y gellid caniatáu trwydded ar eu cyfer o dan Reoliadau 2010.

10.4 Mae Erthygl 1(i) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn diffinio statws cadwraeth rhywogaethau Ewropeaidd.

10.5 Er bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y profion uchod, ni ddylai ddyblygu rôl y corff cadwraeth. Yr unig amgylchiadau pan ddylai awdurdodau cynllunio lleol wrthod cymeradwyo manylion sy'n galw am gymeradwyaeth ymlaen llaw yw pan fydd trosedd sy'n gysylltiedig â rhywogaeth a warchodir gan Ewrop yn debygol o ddeillio o'r datblygiad a phan fyddai'n annhebygol y byddai trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei chaniatáu[6]. Pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgan eu bod yn fodlon y gellir trwyddedu datblygiad arfaethedig, mae gan yr awdurdod cynllunio lleol hawl i ddibynnu ar eu barn nhw.

10.6 Byddai casgliadau'r profion, yn ogystal â'r tebygolrwydd o ganiatáu trwydded ar gyfer y cynnig, yn ffurfio ystyriaeth berthnasol i'r awdurdod cynllunio lleol wrth wneud penderfyniad i roi cymeradwyaeth ymlaen llaw ai peidio. Bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol ddangos bod swyddogion, neu aelodau etholedig, wedi bod yn ymwybodol o'u dyletswydd a'u bod wedi'i hystyried wrth wneud y penderfyniad.

Mesurau lliniaru

10.7 Wrth ystyried y profion, gallai fod angen cyflwyno mesurau lliniaru a sicrhau cymeradwyaeth ar eu cyfer gan yr awdurdod cynllunio lleol er mwyn i'r cynllun fynd rhagddo. Dylid ond defnyddio'r mesurau lliniaru i sicrhau na fydd y gweithrediadau yn niweidiol i gynhaliaeth poblogaeth y rhywogaeth a warchodir dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn eu hamgylchedd naturiol.

Defnyddio amodau

Pan fydd awdurdod cynllunio lleol yn cynnig cymeradwyo'r manylion a gyflwynir, nid yw'r ddyletswydd yn erthygl 12 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd i ystyried Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop yn cael ei chyflawni drwy'r:

- amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal arolygon o Rywogaeth a Warchodir gan Ewrop; neu

[6] R (Morge) v. Cyngor Sir Hampshire [2011]

- ddefnydd o 'wybodaeth' ar yr hysbysiad yn hysbysu'r ymgeisydd o faterion Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop neu y gallai fod angen cymeradwyaethau eraill hefyd.

Beth os na ellir rhoi cymeradwyaeth?

10.8 Mewn amgylchiadau eithriadol, yn arbennig rhai sy'n gysylltiedig â gwaith dymchwel pan nad oes llawer o ddewisiadau eraill posibl, efallai na fydd yn bosibl rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw o ganlyniad i'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Bydd gan yr ymgeisydd hawl i apelio i Weinidogion Cymru pe byddai hyn yn digwydd. Pe byddai penderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol yn cael ei gadarnhau ar ôl apêl, byddai hyn yn golygu i bob pwrpas na fyddai'n bosibl gweithredu'r caniatâd a roddwyd gan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir. Nid yw hyn yn atal yr ymgeisydd rhag ceisio cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer cynllun amgen, neu geisio sicrhau caniatâd cynllunio i wneud gwaith ar y safle.

Canllawiau pellach


10.9 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynhyrchu canllaw er mwyn helpu i ddehongli deddfwriaeth Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop 'Guidance document on the strict protection of animal species of Community interest under the Habitats Directive 92/43/EEC' (Chwefror 2007).

## 11.0 Gorfodi


11.1 Gall datblygiad a gyflawnir yn groes i'r amodau a osodir gan y GPDO neu gan yr awdurdod cynllunio lleol o ganlyniad i gais am gymeradwyaeth ymlaen llaw, neu gymeradwyaeth yn dilyn y gofyniad am gymeradwyaeth ymlaen llaw, fod yn destun camau gorfodi o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

## Atodlen 1

### Cam Un



## Cam Dau


Ymgeisydd yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i'w hystyried gan yr ACLI.
A yw'r ACLI yn gallu penderfynu y bydd rhoi cymeradwyaeth i'r datblygiad yn cydymffurfio â deddfwriaeth rhywogaethau a warchodir gan Ewrop (h.y. dibentrwyddedu priodol a'r ddau brawfgorfodol sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb)?
Ydy
A yw'r ymgeisydd wedi cyflwyno'r wybodaeth ychwanegol angenrheidiol?
Ydy
Nac ydy
Nac ydy
Oes
A oes angen gwybodaeth ychwanegol er mwyn cynnal yr asesiad?
Nac oes
A yw'r ymgeisydd yn apelio?
Rhaid i'r ACLI wrthod y manylion a gyflwynwyd.
Nac ydy
Ydy
A yw'r apêl yn llwyddo?
Nac ydy
Ni ellir gweithredu'r caniatâd a roddwyd gan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir. Mae angen cais cynllunio llawn a bydd ond yn bosibl i'r datblygiad fel y'i cyflwynwyd fynd rhagddo os rhoddir caniatâd cynllunio.
Ydy
Bydd yr ACLI (neu Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn dilyn apêl) yn rhoi caniatâd ysgrifenedig a gall y datblygiad fynd rhagddo yn amodol ar gydymffurfiaeth â'r amodau datblygu a ganiateir, cyfyngiadau ac (os bydd angen) trwydded rhywogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.